

Cynnig i greu Canolfan Rhagoriaeth Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, defnyddio'r ddarpariaeth ôl-16 oed yng Ngholeg y Cymoedd a Choleg Dewi Sant, Caerdydd, ac i ddileu'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol newydd 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion, a fydd yn cael ei roi ar waith o 1 Tachwedd 2018

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig yma'n cael ei gynnal rhwng 15 Hydref 2018 a 31 Ionawr 2019, yn rhan o ymgynghoriad ehangach sy'n ymwneud ag ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgol yn ardaloedd y Ddraenen Wen a Phontypridd yn Rhondda Cynon Taf. Mae dogfen ymgynghori fanwl wedi cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Mae copïau wedi cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Asesiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori sydd wedi'i dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynnig yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w chyflwyno ar yr adeg yma.

Rhaid nodi nad ydyn ni'n cau unrhyw ddarpariaeth ysgol gyfun o ganlyniad i'r cynnig penodol yma. Bydd y tair ysgol a allai gollu eu darpariaeth chweched dosbarth yn bodoli o hyd, er y bydd newidiadau o ran oedran y plant maen nhw'n dymuno'u derbyn (o 11-19 oed i 3-16 oed neu 11-16 oed yn achos Cardinal Newman). Bydd lle a chyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned ar wahân wedi cael eu paratoi mewn perthynas a'r holl gynigion eraill sy'n destun ymgynghori ar hyn o bryd.

O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i rhoi uchod, rydyn ni o'r farn bydd yr elfen chweched dosbarth o'r cynigion i ad-drefnu Ysgolion y Ddraenen Wen a Phontypridd yn cael effaith niwtral ar y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Bydd yr holl gyfleusterau a gwasanaethau y mae'r ysgolion yma'n eu darparu ar gyfer y cymunedau yn parhau i fodoli. Dydy asesiad mwy manwl o'r effaith ar y gymuned felly ddim wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynnig yma oherwydd dydyn ni ddim o'r farn y byddai hynny yn berthnasol neu'n briodol o dan yr amgylchiadau.

Yr unig effaith bosibl fydd hynny sydd ar y disgyblion a allai fod angen addysg chweched dosbarth yn y dyfodol - mae'n bosibl bydd rhaid iddyn nhw deithio'n bellach i gyrraedd y ddarpariaeth yma. Mae llawer gormod o sefyllfaoedd gwahanol i sôn am bellteroedd o ran teithiau disgyblion yn yr adroddiad yma.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer plant yn unol â Pholisi Cludiant i Ddisgyblion y Cyngor sy'n weithredol ar adeg trosglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i'w safle newydd. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ac yn cynnwys cymhwyso'r meini prawf pellter a llwybrau peryglus, os ydyn nhw'n berthnasol.

